

Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Merthyr Tudful (Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr Tudful)

Adroddiad Asesu Blynyddol 2017-18

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Merthyr Tudful i Isadran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru.

1 Crynodeb gweithredol

Roedd Merthyr Tudful wedi cyflawni pob un o'r 12 hawl graidd yn llawn.

O'r 10 dangosydd ansawdd sydd â thargedau, roedd Merthyr Tudful wedi cyflawni 9 yn llawn, ac 1 yn rhannol.

Caiff y gwasanaethau llyfrgell eu darparu gan Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr Tudful ar ran y Cyngor. Mae'r gwasanaeth wedi parhau i berfformio'n dda o dan y trefniant hwn yn y flwyddyn gyntaf hon o'r chweched fframwaith; mae bodlonrwydd defnyddwyr yn parhau'n uchel, ac mae lefelau defnydd wedi gwella'n gyffredinol. Serch hynny, mae benthyciadau llyfrau plant yn parhau i fod yn isel iawn, a chalonogol yw gweld bod cynlluniau ar y gweill i ganolbwyntio ar ddatblygiad y gwasanaethau plant yn y flwyddyn nesaf. Mae effaith cyllidebau sy'n gostwng ar y gronfa lyfrau yn peri pryder mawr, gan y gallai gostyngiadau pellach yma effeithio'n ddifrifol ar berfformiad y gwasanaeth yn y dyfodol. Cydnabyddir hefyd yr heriau a ddaw yn sgil lefelau isel y staff, a nodir bod cyfyngiadau ariannol yn golygu bod y gwasanaeth yn parhau i edrych ar wahanol fodolau staffio. Er bod cysur yn y ffaith fod yr Ymddiriedolaeth a'r awdurdod lleol wedi ymrwmo i gefnogi gwasanaethau llyfrgell yn y blynyddoedd i ddod, bydd buddsoddiad parhaus yn hanfodol er mwyn sicrhau y gall y gwasanaeth barhau i berfformio ar y lefelau presennol, a chyflawni ei ddyheadau i ddarparu profiad o ansawdd i gwsmeriaid.

- Cwblhawyd arolygon defnyddwyr ar gyfer oedolion a phlant ym mis Mawrth 2018 gan ddangos parhad yn lefelau uchel y bodlonrwydd. Mae 95% o bobl ifanc o'r farn fod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu (i lawr o 99% ym mis Mawrth 2017), ac mae 93% o oedolion yn credu ei fod wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau.
- Mae'r gefnogaeth ar gyfer iechyd a lles yn gryf ym Merthyr Tudful, a dyma un o'r ychydig awdurdodau sy'n rheolaidd yn cynnig yr ystod lawn o wasanaethau o dan ddangosydd ansawdd 4 ym mhob man gwasanaeth sefydlog. Mae sesiynau hyfforddi ffurfiol yn parhau i gofnodi'r nifer uchaf o fynychwyr yng Nghymru fesul pen y boblogaeth.
- Mae nifer yr ymwelwyr wedi codi ac mae cyfanswm y benthyciadau llyfrau hefyd wedi codi ychydig, er bod benthyciadau plant yn parhau i fod yn isel iawn.
- Mae'r gyllideb deunyddiau wedi gostwng, er bod y perfformiad yn erbyn targedau derbyniadau wedi'i gynnal i gryn raddau.
- Ni fu unrhyw newidiadau i nifer y staff / staff cymwysedig yn 2017-18, ond nid yw'r targedau yn y maes hwn wedi'u cyrraedd, a nodir bod lefel isel y staff cyffredinol yn her i'r gwasanaeth.
- Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi gostwng dros 15%, gan adlewyrchu mwy o bwysau ar gyllidebau ledled yr Ymddiriedolaeth, gyda'r gwariant fesul pen y

boblogaeth nawr yn agos at yr isaf yng Nghymru.

2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd sydd â thargedau, dangosyddion ansawdd sydd â meincnodau, a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi cyflawniadau yn erbyn y meysydd hyn, ac Adran 3 yn rhoi asesiad naratif o berfformiad yr awdurdod.

2.1 Hawliau craidd

Mae Merthyr Tudful yn cyflawni pob un o'r 12 hawl graidd yn llawn. Mae'r gwasanaethau llyfrgell ym Merthyr yn croesawu pob rhan o'r gymuned, ac mae'n teilwra gwasanaethau i ddemograffeg dalgylch pob un o'i fannau gwasanaeth. Defnyddir cysylltiadau a phartneriaethau lleol i hyrwyddo a chefnogi'r ddarpariaeth. Mae cyllideb farchnata ganolog ar gyfer yr Ymddiriedolaeth, a gwneir defnydd eang o'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo gwasanaethau. Defnyddir yr ymgynghoriadau arolwg â defnyddwyr i lywio datblygiad gwasanaeth.

2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) yn y fframwaith, a 10 ohonynt yn cynnwys targedau. O'r rhain, mae Merthyr Tudful yn cyflawni 9 yn llawn, ac un yn rhannol.

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?
DA 3 Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol:	Cyflawni'n llawn
a) Cymorth TGCh	✓
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	✓
c) Cymorth e-lywodraeth	✓
d) Datblygu darllenwyr	✓
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles	Cyflawni'n llawn
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau	✓
ii) Cynllun Llyfrau Llesol	✓
iii) Casgliad penodol i iechyd a lles	✓
iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd iach o fyw	✓
v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles	✓
DA 6 Pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau / gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig	✓ Cyflawni'n llawn
DA 7 Lleoliad manau gwasanaeth	✓ Cyflawni'n llawn
DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol	Cyflawni'n llawn
Derbyniadau fesul pen y boblogaeth	✓
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau fesul pen	x
DA 10 Adnoddau Cymraeg	Cyflawni'n llawn
% y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar y Gymraeg	x
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg fesul pen	✓
DA 11 Mynediad ar-lein:	Cyflawni'n llawn
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhynggrwyd	✓

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
ii) Darpariaeth Wi-Fi	✓	
DA 12 Cyflenwi ceisiadau		Cyflawni'n llawn
a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod	✓	
b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod	✓	
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflawni'n rhannol
i) Staff fesul pen y boblogaeth	x	
ii) Staff cymwysedig fesul pen y boblogaeth	x	
iii) Cymhwyster/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	✓	
iv) Canran DPP	✓	
DA 16 Oriau agor fesul pen y boblogaeth	✓	Cyflawni'n llawn

Ni fu newid sylweddol yn y perfformiad cyffredinol o'i gymharu â blwyddyn olaf y pumed fframwaith o ran y dangosyddion hynny y mae modd eu cymharu'n uniongyrchol.

2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sy'n ceisio asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei gael ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod cyfnod tair blynedd y fframwaith y mae gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1. Mae'r ffigyrau crynhoi isod (isaf, canolrif ac uchaf) felly yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny sy'n nodi eu bod wedi cwblhau eu harolygon defnyddwyr yn ystod y flwyddyn gyntaf hon o'r fframwaith. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr uchaf.

Cynhaliodd Merthyr Tudful arolygon defnyddwyr i oedolion a phlant yn ystod mis Mawrth 2018.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 Gwneud gwahaniaeth					
b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	95%	3/6	73%	94%	97%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	93%	2/7	38%	90%	95%
DA 5 b) % mynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu hamcanion:	96%	14/17	75%	98%	100%

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i gael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Cyflwynodd Merthyr Tudful dair astudiaeth achos o'r fath, er y byddai wedi bod yn ddefnyddiol casglu tystiolaeth bellach mewn rhai achosion o'r effaith ar gyfranogwyr i gyfrannu at ddatblygiad arlwy'r gwasanaeth yn y dyfodol:

- Gwasanaeth Cyswllt Cartref – effaith y gwasanaeth llyfrgell yn y cartref ar deulu unigolyn sy'n byw gyda dementia; helpodd y gwasanaeth iddi barhau i ddarllen, cadw ei hyder a chadw'n iach am gyfnod hirach. Roedd hi'n mwynhau'r ymweliadau gan staff Cyswllt Cartref, yn ogystal â chael ei chynnwys mewn digwyddiadau.
- Sgwad Ysgrifennu: yr Aifft – cefnogi pobl ifanc i ymwneud â gweithgareddau

diwylliannol; roedd grŵp ysgrifennu creadigol plant sydd wedi'i leoli yn y llyfrgell wedi gweithio gyda'r partneriaid lleol i ddatblygu gwaith ysgrifenedig a pherfformio yn seiliedig ar arddangosfa Eifftoleg yn Amgueddfa ac Oriel Gelf Castell Cyfartha, gan ddatblygu sgiliau ymchwil, ysgrifennu a gwneud ffilmiau.

- 'Bwyd a Hwyl' – cyfraniad i Raglen Cyfoethogi Gwyliau'r Ysgol, gyda'r gwasanaeth llyfrgell yn darparu gweithgareddau crefft, ysgrifennu creadigol, chwarae a darllen, a phlant yn cwblhau Her Ddarllen yr Haf. Cododd y prosiect broffil y gwasanaeth a'i botensial i gyfrannu at y cwricwlwm addysg.

2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn fodd i wasanaethau fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, a chymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sefyllfa Merthyr Tudful ar gyfer 2017-18. Mae safle'r awdurdod wedi'i roi allan o 22, sef 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion sydd â llai na 22 awdurdod wedi cyflenwi data ar eu cyfer yn ddangosyddion lle nad oedd yr elfennau data perthnasol ar gael i rai awdurdodau. Pan fo modd, mae ffigyrau a roddwyd ar gyfer blwyddyn olaf y pumed fframwaith hefyd wedi'u cynnwys er hwylustod cymharu; fodd bynnag, mewn rhai achosion mae newid yn y diffiniad neu gyflwyno mesurau ychwanegol yn golygu nad yw cymharu yn ymarferol. Mae dangosyddion 'fesul pen y boblogaeth' wedi'u cyfrifo fesul 1,000 y boblogaeth, oni nodir yn wahanol.

Dangosydd perfformiad	Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2016/17	
DA 1 Gwneud gwahaniaeth						
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd:	94%	1/7	24%	83%	94%	93%
c) iechyd a lles	88%	2/7	33%	65%	95%	85%
d) lle diogel a chroesawgar	100%	1/7	90%	98%	100%	99%
DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid						
a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau	98%	1/7	88%	91%	98%	96%
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	100%	1/7	93%	99%	100%	99%
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	94%	1/6	74%	86%	94%	
d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol;	99%	1/7	93%	97%	99%	99%
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	9.0	4/6	8.5	9.1	9.2	9.0
DA 5 Hyfforddiant i ddefnyddwyr						
a) mynychwyr fesul pen	238	1/22	10	32	238	248
c) hyfforddiant anffurfiol fesul pen	329	5/22	15	199	473	334
DA 6 Mynychwyr mewn digwyddiadau fesul pen y boblogaeth	288	8/22	82	228	684	292
DA 8 Defnyddio'r llyfrgell						
a) ymweliadau fesul pen y boblogaeth	3,825	14/22	2,501	4,047	7,014	3,706
b) rhith-ymweliadau fesul pen	865	12/22	243	866	2,211	994
c) benthycwyr gweithredol fesul pen	148	13/22	100	154	229	161
DA 10 Benthyciadau Cymraeg fesul pen *	28	18/22	4	68	663	
DA 11 Mynediad ar-lein						
b) cyfrifiaduron fesul pen [^]	10	8/22	5	9	14	10

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2016/17
c) % yr amser ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd	62%	2/22	14%	27%	67%	55%
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau						
(v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr	51	7/21	3	31	196	66
b) cyfanswm oriau gwirfoddolwyr	800	15/21	40	1,346	11,939	640
DA 14 Gwariant gweithredol						
a) cyfanswm gwariant fesul pen	£7,799	20/21	£7,047	£11,915	£17,771	£9,330
b) % ar staff	63%	11/21	44%	63%	75%	58%
% ar adnoddau gwybodaeth	20%	3/21	4%	13%	25%	24%
% ar offer ac adeiladau	5%	9/21	0%	4%	20%	4%
% ar gostau gweithredol eraill;	13%	15/21	0%	18%	37%	14%
c) gwariant cyfalaf fesul pen	£0	14/20	£0	£338	£17,432	£1,351
DA 15 Cost net am bob ymweliad	£1.29	18/21	£1.24	£1.82	£2.41	£1.93
DA 16 Oriau agor [#]						
(iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny	0.00%	1/21	0.00%	0.02%	1.28%	0.00%
b) % arosfannau llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	0.00%	1/20	0.00%	0.35%	11.24%	0.00%

* fesul pen y boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg

^ am bob 10,000 o'r boblogaeth breswyl

Mae'r safleoedd yma wedi'u troi o chwith, sef mai 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf (perfformio orau).

3 Dadansoddi perfformiad

Mae'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd wedi'u rhannu yn bedwar maes allweddol. Mae adran hon yr adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad (pan fo'n berthnasol) â rhai blwyddyn olaf y pumed fframwaith (2016-17).

3.1 Ateb anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Cynhaliodd Merthyr Tudful ei arolygon defnyddwyr (oedolion a phlant) ym mis Mawrth 2018, gan gael rhai mân welliannau ar yr arolygon a gynhaliwyd y flwyddyn flaenorol dan y pumed fframwaith. Mae lefelau bodlonrwydd yn parhau i fod yn uchel, gyda 94% o oedolion yn cytuno bod y llyfrgell yn eu helpu i ddatblygu sgiliau newydd, ac mae defnyddwyr 16 oed ac iau yn rhoi sgôr gyffredinol o 9 allan o 10. Mae'r holl lyfrgelloedd sefydlog yn cynnig yr ystod lawn o gymorth ar gyfer datblygiad unigol, a cheir cefnogaeth dda i iechyd a lles, gyda Merthyr Tudful yn un o dri yn unig o awdurdodau sy'n darparu'r ystod lawn o wasanaethau a gweithgareddau penodol ar draws ei holl fannau gwasanaeth. Mae'r nifer sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol wedi gostwng ychydig, yn unol â gostyngiad yn yr arlwy hyfforddiant cyffredinol yn dilyn colli arian i rai sefydliadau partner, ond er hynny mae'n parhau i fod yr uchaf yng Nghymru fesul pen y boblogaeth. Cadwyd y niferoedd a gynorthwyir trwy hyfforddiant anffurfiol i gryn raddau.

3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Merthyr Tudful yn parhau i gyrraedd y targed yn ymwneud â mynediad rhwydd i fannau gwasanaeth, ac mae'n cynnig digwyddiadau / gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig ym mhob llyfrgell sefydlog. Mae'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau / gweithgareddau wedi gostwng ychydig, ond nodir bod hyn yn adlewyrchu gorfod canslo sesiynau yn ystod tywydd garw. Mae nifer yr ymwelwyr wedi cynyddu ers 2016-17, gyda

Merthyr Tudful yn un o saith yn unig o wasanaethau llyfrgell sydd wedi nodi cynnydd mewn ymweliadau. Mae benthyciadau llyfrau ar y cyfan hefyd wedi codi ychydig, er o gymharu mae'r perfformiad yn hyn o beth yn dal i fod yn wan, gyda benthyciadau llyfrau plant ymhlith yr isaf yng Nghymru fesul pen y boblogaeth.

3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)

Mae pwysau'r gyllideb gyffredinol wedi effeithio ar y gronfa lyfrau yn 2017-18, gyda gostyngiad yn y gyllideb deunyddiau o tua 30%. Er gwaethaf hyn, mae'r gwasanaeth wedi llwyddo i gynnal a hyd yn oed wella lefelau derbyniadau, trwy ddefnydd strategol o'r cronfeydd sydd ar gael, ac i'r fath raddau nes bod lefel y targed derbyniadau fesul pen y boblogaeth yn dal i gael ei gyflawni. Nodir hefyd fod gwariant ar adnoddau Cymraeg yn cyrraedd y targed gwariant fesul pen, er bod benthyciadau Cymraeg yn is na'r canolrif ar gyfer Cymru. Mae'r ddarpariaeth cyfrifiaduron wedi'i chadw ar lefelau 2016-17 ac mae'r defnydd yn y maes hwn wedi cynyddu gyda'r cyfleusterau yn cofnodi'r lefelau defnydd ail uchaf yng Nghymru, gan adlewyrchu'r galw lleol a'r mynediad sydd ei angen ar gyfer dibenion Universal Jobmatch a Chredyd Cynhwysol. Mae'r perfformiad mewn perthynas â chyflenwi ceisiadau wedi gostwng, ond mae'r ddau darged yn dal wedi'u cyflawni.

3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)

Cadwyd lefelau staff cyffredinol a staff â chymwysterau, er nad yw'r un o'r targedau wedi'u cyrraedd; mae'r datganiad blynyddol yn nodi nad oes cynlluniau na newid ar y gweill o ran staffio'r gwasanaeth. Mae yma arweinyddiaeth â chymwysterau, ac mae'r gwasanaeth yn cyflawni'r gofynion ar gyfer hyfforddiant staff / datblygiad proffesiynol. Er bod nifer y gwirfoddolwyr wedi gostwng, mae'r gwasanaeth wedi cadw craidd o arbenigedd gwirfoddol, a'u cyfraniad hwy wedi cynyddu yn 2017-18.

Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi gostwng mwy na 15% yn 2017-18, gan adlewyrchu mwy o bwysau ar gyllidebau ledled yr Ymddiriedolaeth, gyda'r gwariant fesul pen y boblogaeth nawr yn agos at yr isaf yng Nghymru. Er hynny, mae cyfanswm yr oriau agor blynyddol wedi cael eu cadw, a'r targed yn hyn o beth wedi'i gyrraedd, ac mae'r gwasanaeth wedi llwyddo i gynnal lefel y ddarpariaeth a gynlluniwyd ar gyfer ei lyfrgelloedd sefydlog a gwasanaethau teithiol.

4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad blynyddol, gofynnir i'r awdurdodau roi gwybod sut mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Mae Merthyr Tudful wedi ymateb i Amcanion Lles Llywodraeth Cymru trwy lunio ei Ddatganiad Lles ei hun. Nodir rôl gwasanaethau'r Llyfrgell yn cefnogi hyn, gan enwi amrediad llawn o weithgareddau a chyfraniadau. Yn benodol, mae'n gweithio i hyrwyddo cynhwysiant digidol a galluogi datblygu sgiliau, cefnogaeth i fyw'n iach, a gweithio gyda phartneriaid lleol i gryfhau cymunedau lleol, a hybu'r defnydd o'r Gymraeg.

5 Cyfeiriad i'r dyfodol

Wrth adrodd ar gyfeiriad a chynlluniau'r awdurdod ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell yn ystod y flwyddyn ganlynol, soniodd Merthyr Tudful am y cyflawniadau hyd yn hyn gyda gwelliannau yn gysylltiedig â chydleoli mannau gwasanaeth, ac agor llyfrgell gymunedol newydd. Fodd bynnag, cydnabyddir yr heriau yn sgil lefelau isel staff a chyfyngiadau'r gyllideb, er bod ymrwymiad gan yr Ymddiriedolaeth a'r awdurdod lleol i gefnogi

gwasanaethau llyfrgell yn y blynyddoedd i ddod. Mae cynlluniau penodol yn cynnwys gwaith pellach i ddatblygu darpariaeth llyfrgell gymunedol, ffocws ar wasanaethau plant, a gwella'r gwasanaeth a gynigir i ysgolion ac unigolion. Cyfeirir at gyfyngiadau ariannol mewn perthynas â'r angen i ddal ati i edrych ar wahanol fodelau staffio; mae hyn yn codi pryderon pan fo lefelau isel y staff eisoes yn golygu heriau wrth ddarparu gwasanaethau.

6 Casgliad

Caiff y gwasanaethau llyfrgell eu darparu gan Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr Tudful ar ran y Cyngor. Mae'r gwasanaeth wedi parhau i berfformio'n dda o dan y trefniant hwn yn y flwyddyn gyntaf hon o'r chweched fframwaith; mae bodlonrwydd defnyddwyr yn parhau'n uchel, ac mae lefelau defnydd wedi gwella'n gyffredinol. Serch hynny, mae benthyciadau llyfrau plant yn parhau i fod yn isel iawn, a chalonogol yw gweld bod cynlluniau ar y gweill i ganolbwyntio ar ddatblygiad y gwasanaethau plant yn y flwyddyn nesaf. Mae effaith cyllidebau sy'n gostwng ar y gronfa lyfrau yn peri pryder mawr, gan y gallai gostyngiadau pellach yma effeithio'n ddifrifol ar berfformiad y gwasanaeth yn y dyfodol. Cydnabyddir hefyd yr heriau a ddaw yn sgil lefelau isel y staff, a nodir bod cyfyngiadau ariannol yn golygu bod y gwasanaeth yn parhau i edrych ar wahanol fodelau staffio. Er bod cysur yn y ffaith fod yr Ymddiriedolaeth a'r awdurdod lleol wedi ymrwymo i gefnogi gwasanaethau llyfrgell yn y blynyddoedd i ddod, bydd buddsoddiad parhaus yn hanfodol er mwyn sicrhau y gall y gwasanaeth barhau i berfformio ar y lefelau presennol, a chyflawni ei ddyheadau i ddarparu profiad o ansawdd i gwsmeriaid.